# Gwybodaeth i Gleifion

# Ar gyfer yr Uned Llygais, Clinig Asesu

# Uned Llygaid

**Y cam nesaf............**
Mae’r meddyg wedi eich rhoi ar y rhestr aros am lawdriniaeth.

**Beth sy’n digwydd nawr?**
Byddwn yn cysylltu â chi yn nes at yr amser er mwyn trefnu i chi ddod i’r Clinig Asesu.

**Yn y clinig asesu:-**

- Bydd y nyrs y gofyn cwestiynau i chi am eich hanes meddygol, y feddyginiaeth rydych CHI yn ei chymryd, manylion am eich cartref a’ch perthynas agosaf
- Byddwch yn cael profion a mesuriadau o’ch llygaid, a fydd yn rhoi’r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eich llawdriniaeth. (Llawdriniaeth cataract yn unig)
- Bydd y nyrs yn rhoi esboniad llawn i chi o’ch llawdriniaeth, a beth i’w ddisgwyl cyn, yn ystod ac ar ôl y llawdriniaeth.
- Cewch esboniad o beth fyddwch yn gallu a ddim yn gallu ei wneud pan fyddwch yn mynd adref ar ôl eich llawdriniaeth.
- Bydd y nyrs yn rhoi taflenni gwybodaeth i chi i’w darllen yn eich amser eich hun.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich llawdriniaeth neu ofal, gwnewch nodyn ohonynt a dewch â nhw gyda chi i’r Clinig Asesu.**

**Ble gallaf i gael rhagor o gyngor?**
Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch â’r:-

Clinig Asesu ar:- Ffôn:- 01633 656261 / 656262

neu’r

Amserlennu ar:- Ffôn:- 01495 765186 Opsiwn 2

Gobeithiwn yn bydd y daflen hon yn ddefnyddiol i chi.

**Nodiadau Personol:-**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English".**